# Cynnal asesiadau risg ar weithgarwch gwyddonol neu dechnegol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymdrin â'r cymwyseddau y bydd eu hangen arnoch i gynnal asesiadau risg ar weithgarwch gwyddonol neu dechnegol yn unol â gweithdrefnau ac arferion cymeradwy.

Bydd angen i chi ddangos eich bod yn gallu cynnal asesiadau risg, deall prosesau, offer, cyfarpar neu ddeunyddiau a all achosi niwed neu ddifrod i bobl, eiddo neu'r amgylchedd. Byddwch yn asesu lefel y risg, ac yn ystyried sut y gellir dileu, lliniaru neu reoli'r risgiau i leihau niwed yn unol â gweithdrefnau'r gweithle.

Mae'r gweithgarwch hwn yn debygol o gael ei wneud gan rywun mewn lleoliad gwaith sydd â chysylltiadau gwyddonol, gan gynnwys unigolion sy'n gweithio mewn ysbytai, labordai gwyddonol, ysgolion a phrifysgolion.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

P1 sicrhau bod eich gwaith yn cael ei wneud yn unol â gweithdrefnau'r gweithle

P2 defnyddio arferion gweithio a chyfarpar diogelu personol (PPE) priodol pan fydd gweithgarwch gwyddonol neu dechnegol yn cael eu cyflawni

P3 nodi a chytuno ar ofynion busnes a gwyddonol neu dechnegol eich rôl yn y gweithle

P4 sefydlu prosesau sy'n cyflawni canlyniadau gwyddonol neu dechnegol sy'n seiliedig ar nodau ac amcanion sefydliadol

P5 diffinio'n eglur pam, pryd a ble fydd yr asesiad risg yn cael ei gynnal

P6 sicrhau bod gennych wybodaeth gywir a chyfoes ar y gweithgarwch gwyddonol neu dechnegol a fydd yn destun yr asesiad risg

P7 dewis dull i ganfod peryglon sy'n briodol i'r maes sy'n cael ei asesu

P8 nodi meysydd gwaith, prosesau, offer, cyfarpar neu ddeunyddiau sydd â'r potensial i achosi niwed neu ddifrod i bobl, eiddo neu'r amgylchedd

P9 asesu lefel y risg, ac ystyried sut y gellid dileu, lliniaru neu reoli'r risg i leihau niwed

P10 cynnig a chofnodi argymhellion ar gyfer delio â'r risgiau a nodwyd

P11 cyflwyno canlyniadau'r gwaith a wnaed i'r bobl briodol, yn unol â gweithdrefnau adrannol a sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

K1 gofynion iechyd a diogelwch y maes lle'r ydych yn ymgymryd â gweithgarwch gwyddonol neu dechnegol

K2 beth yw goblygiadau peidio ag ystyried deddfwriaeth, rheoliadau, safonau a chanllawiau pan fyddwch yn ymgymryd â gweithgarwch gwyddonol neu dechnegol

K3 y technegau a'r prosesau gwyddonol neu dechnegol sy'n rhaid i chi eu defnyddio'n gywir yn y gweithle

K4 pwysigrwydd gwisgo dillad diogelu, menig a chyfarpar diogelu'r llygaid mewn gweithgarwch gwyddonol neu dechnegol

K5 pwysigrwydd adnabyddiaeth gywir, ac unrhyw system godio unigryw yn y gweithle

K6 y gofynion sefydliadol er mwyn cynnal diogelwch y gweithle a chadw dogfennau cyfrinachol

K7 nodau ac amcanion busnes y gweithle a'r broses gynllunio

K8 strwythur sefydliadol y gweithle, ei werthoedd a'i ddiwylliant

K9 sut y gall eich gweithgarwch gwyddonol neu dechnegol ychwanegu gwerth drwy gyfrwng cynnyrch, gwasanaethau a phrosesau

K10 y sianelau cyfathrebu a'r cyfrifoldebau yn eich adran, a'r cysylltiadau â gweddill y sefydliad

K11 terfynau eich awdurdod, a phwy ddylech gysylltu â hwy os oes gennych broblemau na allwch eu datrys

Cynnal asesiadau risg ar weithgarwch gwyddonol neu dechnegol

K12 sut i nodi ac asesu gofynion gwyddonol neu dechnegol eich rolau gwaith

K13 y gwahanol ffyrdd o bennu eich amcanion gwaith personol

K14 y gwahanol safbwyntiau a dulliau sy'n bwysig wrth ddefnyddio hunaniaeth neu grebwyll o ran y defnydd o weithgarwch gwyddonol neu dechnegol

K15 y gwahanol fathau o ymchwiliadau yr ymgymerir â hwy ac a ddefnyddir i adolygu effeithiolrwydd neu briodoldeb dulliau, camau a chanlyniadau eich gwaith gwyddonol neu dechnegol

K16 gweithgarwch gwyddonol neu dechnegol penodol y bobl lle'r ydych yn cynnal yr asesiad risg

K17 sut i gael gwybodaeth am y gweithgarwch gwyddonol neu dechnegol, a'r rheoliadau a'r gofynion iechyd a diogelwch sydd i'w dilyn

K18 y risgiau iechyd a diogelwch penodol a all godi yn sgil y gwahanol weithgareddau yr ymgymerir â hwy, a'r rhagofalon y gellir eu cymryd

K19 y gwahanol ddulliau a'r technegau y gellir eu defnyddio i weld peryglon ac asesu

diogelwch

K20 gwybod sut i ganfod peryglon a all godi yn sgil newidiadau mewn arferion gweithio

K21 sut i sicrhau bod canfod achos peryglon yn amharu ac yn achosi cyn lleied â phosibl o bryder i bobl eraill

K22 goblygiadau posibl y risgiau

K23 dulliau o ganfod peryglon ac i asesu'r tebygolrwydd y bydd y risg yn codi

K24 gwybod sut i flaenoriaethu a rheoli peryglon

K25 y mathau o ddulliau asesu risg sy'n briodol i wahanol fathau o risg

K26 dulliau o gasglu a gwerthuso gwybodaeth ar weithgarwch asesu risg

K27 technegau i ddiffinio a rheoli risgiau a ganfuwyd

K28 problemau a all ddigwydd yn ystod asesiadau risg, a sut y gellir osgoi neu gywiro'r risgiau hyn

K29 ffynonellau arbenigedd technegol a all gynghori ar asesiadau risg iechyd a diogelwch

## Cwmpas/Ystod